



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2021/22

Adroddiad y Bwrdd Iechyd



Cynnwys

| | |
|---|----|
| 1. Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2. Cyflwyniad | 7 |
| 3. Methodoleg | 8 |
| 3.1 Proses Samplu | 8 |
| 3.2 Dosbarthu holiaduron | 8 |
| 3.3 Neilltuo ymatebwyr i Fwrdd Iechyd / Felindre..... | 8 |
| 3.4 Safoni Data'r Bwrdd Iechyd (data wedi'i addasu) | 10 |
| 3.5 Sgôr cyfartalog y Bwrdd Iechyd a sgôr Cymru Gyfan | 10 |
| 4. Cyfraddau ymateb | 11 |
| 5. Cymharu â blynyddoedd blaenorol..... | 14 |
| 6. Yr adroddiad hwn a chyhoeddiadau dilynol..... | 15 |
| 7. Deall y canlyniadau..... | 16 |
| 8. Canlyniadau'r arolwg..... | 21 |
| 8.1 Cyn eich diagnosis | 21 |
| 8.2 Darganfod bod gennych chi ganser..... | 27 |
| 8.3 Penderfynu ar y driniaeth a / neu'r gofal gorau i chi | 32 |
| 8.4 Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd | 37 |
| 8.5 Cefnogi pobl sy'n byw gyda chanser | 50 |
| 8.6 Gweithrediadau..... | 54 |
| 8.7 Gofal ysbyty fel claf mewnol | 56 |
| 8.8 Apwyntiadau cleifion allanol / achosion dydd | 65 |
| 8.9 Radiotherapi / cemotherapi..... | 67 |
| 8.10 Trefnu cymorth yn y cartref | 69 |
| 8.11 Gofal gan eich Practis Cyffredinol | 73 |
| 8.12 Eich gofal GIG cyffredinol..... | 75 |
| Atodiad 1 | 80 |
| Atodiad 2 | 81 |
| Cydnabyddiaeth | 82 |

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o'r trydydd Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru a gynhaliwyd gan IQVA yn 2021/2022 ar ran Cymorth Canser Macmillan a Rhwydwaith Canser Cymru.

Mae'r arolwg o brofiad cleifion cancer yng Nghymru (WCPES) wedi'i ddylunio i fesur a deall profiadau cleifion o ofal a thriniaeth cancer yng Nghymru er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad cenedlaethol, a gefnogir gan ddangosfwrdd data, yn ogystal ag adroddiadau cysylltiedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaeth, yn ein helpu i ddathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda, ond byddant hefyd yn cyfrannu at welliannau pellach mewn gofal cancer drwy dynnu sylw at feysydd o bwys a godwyd gan bobl sy'n byw gyda chanser ledled Cymru. Ar ôl i chi ddarllen yr adroddiad, fe welwch nad yw rhai o'r canrannau yn creu cyfanswm o 100%. Mae hyn oherwydd y broses dalgrynnu a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data. Gweler yr adran ym Mhennod 7 o'r enw 'Confensiynau Adrodd Eraill' i gael rhagor o fanylion.

Yn sgil pandemig COVID-19, gwnaed newidiadau na welwyd erioed o'r blaen i'r ffordd roedd gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu er mwyn lleihau lledaeniad y feirws ac effeithiodd hyn ar brofiad gofal. Gan fod y fersiwn hwn o'r WCPES yn cynnwys profiadau'r rheini a gafodd driniaeth rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2020, mae'r effaith ychwanegol ar wasanaethau a darpariaeth yn ystod pandemig COVID-19 wedi'i chynnwys. Roedd llai o gleifion yn dod i mewn i ysbytai a meddygfeydd am apwyntiadau wyneb yn wyneb a chafodd llawer o ymgynghoriadau eu cynnal ar-lein, a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn dod i mewn ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gyfer ymchwiliadau a thriniaethau wneud hynny ar eu pen eu hunain. Er y gwnaed hyn er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar atal a rheoli heintiau, bydd hyn wedi effeithio ar brofiadau.

Roedd effaith y pandemig yn amrywio ar draws Byrddau Iechyd a Felindre ar wahanol adegau, yn dibynnu ar nifer yr achosion o COVID, gwasanaethau a chapasiti'r gweithle. Gan fod gofal cynradd (ee mynediad at feddyg teulu a fferyllfa), gwasanaethau cymunedol (ee iechyd a gofal cymdeithasol), gofal eilaidd (ee ysbytai a gwasanaethau arbenigol), a'r trydydd sector (ee cymorth elusennol) wedi cael eu tarfu, gwnaed addasiadau sylweddol i'r ffordd roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio a'u darparu. Gallai hyn, yn ei dro, fod wedi effeithio ar y broses o rannu gwybodaeth ymarferol, gefnogol a holistaidd ar draws y llwybr cancer, fel yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi wyneb yn wyneb a'r angen i ddibynnu ar ddulliau post/o bell/digidol.

Mae'n bwysig cydnabod cyd-destun y pandemig wrth ddehongli'r adroddiad er mwyn gwerthfawrogi'n llawn yr amgylchiadau lle'r oedd cleifion yn adrodd ar eu profiadau. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu i adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae pobl sydd wedi cael gofal cancer yn ystod y cyfnod hwn wedi'i rannu â ni. Er nad yw'n beirniadu'r ddarpariaeth o ofal mewn unrhyw ffordd nac yn rhesymoli neu'n dehongli'r ymatebion hyn, mae myfyrio ar rai o'r sylwadau mae pobl wedi'u rhannu ynghylch effaith COVID-19 yn sobreddiol ac mae'n cefnogi dysgu a gwella'n barhaus. Ystyrir bod yr adborth meintiol ac ansoddol yr un mor bwysig ac fe'u cynlluniwyd i'w darllen fel dwy ran o un adroddiad.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r miloedd o bobl sy'n byw gyda chanser a gymerodd ran yn yr arolwg ac am roi adborth mor fanwl ynghylch eu profiadau o gael diagnosis, triniaeth a gofal ac rydym wedi ymrwmo i wella profiadau cleifion yn y dyfodol.

Prif Ganlyniadau

Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gadarnhaol. Dywedodd **85%** o'r ymatebwyr fod eu gofal cyffredinol yn 7 neu fwy allan o 10 (gostyngiad o **93%** pan gynhaliwyd yr arolwg ddiwethaf yn 2016), gyda dim ond **4%** yn rhoi sgôr o rhwng 0 a 3 allan o 10 ar gyfer eu gofal cyffredinol (**0%** yn 2016). Dywedodd **85%** eu bod bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch tra oeddent yn yr ysbyty (**93%** yn 2016).

Dyma sgoriau cadarnhaol eraill yr arolwg:

- Dywedodd **95%** o'r ymatebwyr eu bod bob amser yn cael digon o breifatrwydd wrth gael eu harchwilio neu eu trin
- Dywedodd **84%** o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth oedd arnynt ei hangen cyn eu llawdriniaeth
- Dywedodd **92%** o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth oedd arnynt ei hangen am eu profion
- Dywedodd **89%** o'r ymatebwyr fod staff yr ysbyty wedi dweud wrthynt gyda phwy y dylent gysylltu os ydynt yn poeni am eu cyflwr neu eu triniaeth ar ôl gadael yr ysbyty

Fodd bynnag, mewn meysydd eraill, roedd yr ymatebion yn llai cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cafodd **34%** gyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon
- Dywedodd **32%** o'r ymatebwyr fod eu tîm gofal iechyd wedi trafod gyda nhw neu wedi rhoi gwybodaeth am yr effaith y gallai canser ei chael ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd (er enghraifft, eu bywyd gwaith neu eu haddysg)
- Dywedodd **29%** o'r ymatebwyr fod eu teulu neu rywun arall agos atynt wedi cael cyfle i siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol
- Dywedodd **32%** o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o ofal a chymorth gan eu meddyg teulu a'u practis meddyg teulu ar ôl gadael yr ysbyty
- Dywedodd **21%** o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cynnig cynllun gofal ysgrifenedig
- Dywedodd **19%** o'r ymatebwyr fod rhywun wedi siarad â nhw ers iddynt gael diagnosis ynglŷn â chymryd rhan mewn ymchwil canser (ee treialon clinigol)

Gweithwyr allweddol, nyrsys clinigol arbenigol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill

Gwyddom o fersiynau blaenorol o'r arolwg hwn fod cael mynediad at Weithiwr Allweddol a Nyrs Glinigol Arbenigol (CNS) yn arwain at well profiad i gleifion ar draws yr holl lwybr gofal. Yng Nghymru, dylai pawb sydd â diagnosis o ganser gael Gweithiwr Allweddol a'r cyfle i gael sgwrs gefnogol ynghylch sut mae diwallu eu hanghenion.¹

Dyweddodd **89%** o'r ymatebwyr eu bod wedi cael enw a manylion cyswllt eu gweithiwr allweddol. Dywedodd **69%** o'r ymatebwyr hyn ei bod yn hawdd cysylltu â nhw. Dywedodd **79%**, pan oedd ganddynt gwestiynau i'w gofyn, roeddent yn cael atebion y gallent eu deall drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd **70%** fod eu Gweithiwr Allweddol wedi rhoi'r holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Yn yr arolwg hwn, dywedodd **90%** o'r ymatebwyr fod eu gofal yn cynnwys mynediad at nyrs glinigol arbenigol, (dywedodd **77%** mai eu nyrs glinigol arbenigol oedd eu gweithiwr allweddol hefyd, dywedodd **13%** nad eu nyrs glinigol arbenigol oedd eu gweithiwr allweddol). Dywedodd **58%** o'r ymatebwyr oedd â mynediad at nyrs glinigol arbenigol ei bod yn hawdd cysylltu â nhw. Dywedodd **78%**, pan oedd ganddynt gwestiynau i'w gofyn, roeddent yn cael atebion y gallent eu deall drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd **67%** fod eu nyrs glinigol arbenigol wedi rhoi'r holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Dyweddodd **75%** o'r ymatebwyr fod eu gofal yn cynnwys mynediad at weithiwr iechyd proffesiynol arall, fel ffisiotherapydd, dietegydd, therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol neu arbenigwr lymffoedema. Dywedodd **58%** o'r ymatebwyr a oedd wedi cysylltu â'u gweithiwr iechyd proffesiynol arall ei bod yn hawdd gwneud hynny. Dywedodd **79%**, pan oedd ganddynt gwestiynau i'w gofyn, roeddent yn cael atebion y gallent eu deall drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd **71%** fod eu gweithiwr proffesiynol gofal iechyd arall wedi rhoi'r holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Amser i weld meddyg teulu neu feddyg arall am y tro cyntaf

Dyweddodd **53%** o'r ymatebwyr fod llai na 3 mis rhwng y tro cyntaf iddynt feddwl bod rhywbeth o'i le a phan oeddent yn gweld meddyg teulu neu feddyg arall am y tro cyntaf. Mae hyn yn fwy na sgôr 2016 o **52%**.

Y Gymraeg

*'Nod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw helpu siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf.*² Mae Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg³ yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

¹ [Gweithwyr allweddol ar gyfer cleifion cancer \(WHC/2014/001\)](#) (Llywodraeth Cymru 2014)

² [Mwy na geiriau - Cynllun Pum Mlynedd 2022-2027](#) (Llywodraeth Cymru 2022)

³ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg \(llyw.cymru\)](#) (Llywodraeth Cymru 2017)

Yn yr arolwg, gofynnwyd i bobl sy'n byw gyda chanser a oeddent yn gallu siarad Cymraeg â staff os oedd angen. Dywedodd 25 o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn (**26%**) fod angen iddynt siarad â staff yn Gymraeg; o'r rhain, cytunodd **36%** eu bod yn gallu gwneud hynny.

Cymharu â 2016

Mae modd cymharu 31 o gwestiynau yn yr arolwg yn fras â chwestiynau 2016 (gweler adran 5). O'r rhain, mae 21 o'r sgoriau wedi gwaethygu ac mae 10 wedi gwella.

Dyma'r 3 gwelliant mwyaf:

- Dywedodd **89.5%** o'r ymatebwyr yn 2021/22 fod eu gofal yn cynnwys mynediad at nyrs glinigol arbenigol – **77.2%** yn 2016 (**+12.3%**)
- Dywedodd **87.5%** o'r ymatebwyr yn 2021/22, pan oeddent yn cael eu trin fel achos dydd neu fel claf allanol, bod yr ysbyty yn sicr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu i reoli eu poen – **80.5%** yn 2016 (**+7.0%**)
- Dywedodd **88.5%** o'r ymatebwyr yn 2021/22 eu bod wedi cael enw a manylion cyswllt eu gweithiwr allweddol – **83.2%** yn 2016 (**+5.3%**)

Dyma'r 3 gostyngiad mwyaf:

- Dywedodd **32.4%** o'r ymatebwyr yn 2021/22 eu bod wedi cael digon o ofal a chymorth gan eu meddyg teulu a'u practis meddyg teulu ar ôl gadael yr ysbyty – **54.3%** yn 2016 (**-22.0%**)
- Dywedodd **54.3%** o'r ymatebwyr yn 2021/22 eu bod yn gallu trafod unrhyw bryderon neu ofnau gymaint ag yr oeddent yn dymuno gyda staff yn ystod eu hymweliad ag ysbyty – **72.7%** yn 2016 (**-18.4%**)
- Dywedodd **38.5%** o'r ymatebwyr yn 2021/22 eu bod wedi cael cynnig cyngor a chymorth ymarferol wrth ddelio â sgil effeithiau eu triniaeth gartref – **55.6%** yn 2016 (**-17.1%**)

2. Cyflwyniad

Arolwg o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru 2021/22 yw trydydd fersiwn yr arolwg, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2013. Mae'r arolwg hwn wedi'i ddylunio i fesur a deall profiadau cleifion o ofal a thriniaeth cancer yng Nghymru er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn helpu i ddathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn cyfrannu at welliannau parhaus mewn gofal cancer, drwy dynnu sylw at feysydd o bwys a godwyd gan bobl sy'n byw gyda chanser ledled Cymru a'u canfyddiadau cysylltiedig.

Hoffem ddiolch o waelod calon i'r miloedd o bobl sy'n byw gyda chanser a gymerodd ran yn yr arolwg ac am roi adborth mor fanwl ynghylch eu profiadau o gael diagnosis, triniaeth a gofal cancer. Hoffem ddiolch hefyd i'r rheini sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r arolwg, a ddaeth i'r sesiynau ymgysylltu, a'r rheini a roddodd o'u hamser i helpu i brofi'r arolwg.

Mae gofal cancer yng Nghymru yn seiliedig ar ofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gall hyn olygu cael sgwrs dda am eu pryderon, deall a oes angen eu hatgyfeirio i gael cyngor neu gwrsela a gwneud yn siŵr bod ganddynt bwynt cyswllt penodol drwy gydol eu gofal.

Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn un o elfennau hirsefydlog gofal cancer yng Nghymru, a nodwyd yn wreiddiol mewn polisi cyhoeddus o dan y Cynllun Cyflawni Canser (2011-2016)⁴, Cynllun Cyflawni Canser (2016-2020)⁵ ac yn fwyaf diweddar yn 2021 drwy'r Datganiad Ansawdd Canser⁶. Mae ein dull o ymdrin â gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae wedi'i wreiddio yn y Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol. Fel rhan o'r Llwybr Unigol ar gyfer Canser, mae'r Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol yn gosod y safonau er mwyn i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ddatblygu dulliau cyson ac integredig o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru⁷. Mae'r Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol yn nodi'r angen i ddyrannu gweithwyr allweddol, asesu anghenion holistig fel rhan safonol o ofal cancer unigolion a sicrhau bod eu hanghenion ehangach yn cael eu diwallu.

Mae'r fersiwn yma o'r arolwg yn cynnwys profiadau'r rheini a gafodd driniaeth yn ystod pandemig COVID-19 (1 Ionawr 2020 - 31 Rhagfyr 2020) ac felly bydd yn adlewyrchu profiadau o'r newidiadau i wasanaethau a darpariaeth yn ystod y cyfnod hwn. Comisiynwyd yr arolwg a'i reoli gan Gymorth Canser Macmillan a Rhwydwaith Canser Cymru. Darparwr yr arolwg, sef IQVIA, sy'n gyfrifol am ei ddylunio, ei ddisbarthu, ei weithredu, ei ddadansoddi a'i ddehongli.

⁴ <https://www.iccp-portal.org/system/files/plans/120613cancerplanen.pdf>

⁵ <https://walescanceralliance.org/wp-content/uploads/2019/06/161114cancerplancy-1.pdf>

⁶ <https://gov.wales/quality-statement-cancer-html>

⁷ <https://llyw.cymru/y-llwybrau-cenedlaethol-gorau-ar-gyfer-canser-whc2022021>

3. Methodoleg

3.1 Proses Samplu

Cymerodd pob un o'r 7 Bwrdd lechyd a chanolfan ganser drydyddol (Canolfan Ganser Felindre, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre) ran yn yr arolwg. Roedd y sampl ar gyfer yr arolwg yn cynnwys holl gleifion y GIG sy'n oedolion (16 oed a hŷn) sydd wedi cael diagnosis sylfaenol wedi'i gadarnhau o ganser ac a gafodd eu rhyddhau ar ôl cyfnod neu ddiwrnod fel claf mewnol ar gyfer triniaeth sy'n gysylltiedig â chanser rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng 23 Hydref 2021 a 13 Chwefror 2022.

3.2 Dosbarthu holiaduron

Fel yn 2016, roedd yr arolwg yn defnyddio methodoleg dull cymysg. Anfonwyd holiaduron drwy'r post yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond roedd hefyd opsiwn i'w llenwi ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg. 21 diwrnod ar ôl postio'r holiadur cyntaf, anfonwyd llythyr atgoffa at y rhai nad oedd wedi ymateb. Anfonwyd nodyn atgoffa terfynol at bobl nad oeddynt wedi ymateb 21 diwrnod yn ddiweddarach. Roedd hyn yn cynnwys copi arall o'r holiadur. Roedd llinell gymorth am ddim ar gael i ymatebwyr ofyn cwestiynau am yr arolwg, i'w galluogi i lenwi eu holiaduron dros y ffôn, ac i ddarparu mynediad at wasanaeth cyfieithu ar gyfer y rheini nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

3.3 Neilltuo ymatebwyr i Fwrdd lechyd / Felindre

Yn 2016, cafodd sgoriau'r Byrddau lechyd unigol eu cynhyrchu drwy neilltuo pobl i'r Bwrdd lechyd yn eu hardal breswyl, ni waeth ymhle y cawsant eu trin. Roedd yr adborth yn cadarnhau mai dyma'r dull a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer dehongli'r canlyniadau eto yn 2021/22. Yr eithriad i hyn yw Canolfan Ganser Felindre oherwydd ei bod yn ganolfan ganser drydyddol sy'n trin pobl o nifer o Fyrddau lechyd.

Mae adroddiadau ar gyfer Canolfan Ganser Felindre yn seiliedig ar y cleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ganolfan ganser yn fwyaf diweddar – fel yn arolwg 2013 a 2016. Felly, mae Canolfan Ganser Felindre yn cael ei thrin ar wahân yn yr adroddiad hwn ac nid yw'n cael ei chymharu â'r 7 Bwrdd lechyd yng Nghymru. Am y rheswm hwn, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn ganolfan ganser arbenigol o fewn Ymddiriedolaeth, mae Canolfan Ganser Felindre yn cael ei thrin ar wahân yn yr adroddiad hwn.

Cytunodd y grŵp llywio a oruchwyliodd y rhaglen i gymeradwyo'r dull hwn ar gyfer 2021/22.

Mae nifer o newidiadau wedi bod i'r Byrddau Iechyd ers arolwg 2016. Ar gyfer arolwg 2021/22, cawsant eu neilltuo i:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
 - Ar 1 Ebrill 2019, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
 - Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt) ei greu ar 1 Ebrill 2019, ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gyfrifol am gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd lleol i fynd i'r afael ag anghenion lleol y 133,000 o bobl sy'n byw ym Mhowys. Mae natur wledig Powys yn golygu bod y rhan fwyaf o wasanaethau lleol yn cael eu darparu'n lleol, drwy feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, ysbytai cymunedol a gwasanaethau cymunedol. Gydag ardal mor brin ei phoblogaeth, nid oes Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ym Mhowys. Felly, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn talu i drigolion Powys gael gwasanaethau ysbyty arbenigol mewn ysbytai y tu allan i'r sir yng Nghymru a Lloegr.

Byddai'r cleifion sy'n cwblhau'r CPES o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cael y rhan fwyaf o'u gofal canser y tu allan i'w Bwrdd Iechyd ee diagnosteg a llawdriniaeth, radiotherapi, cemotherapi.

Wrth ddehongli canlyniadau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, bydd y profiad a adroddir arno'n adlewyrchu'r holl lwybrau'r cleifion a all gynnwys nifer o Fyrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar brofiad o ganser yr ymatebwyr sy'n byw yn ardal weinyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

3.4 Safoni Data'r Bwrdd Iechyd (data wedi'i addasu)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfuniad o ddata safonol (wedi'i addasu) a data heb ei addasu.

Pwrpas safoni yw gallu cymharu data'n decach. Mae safoni'n golygu'r broses o gael gwared ar unrhyw wahaniaethau a allai fod yn bresennol yn sgil amrywiad lleol o ran proffil demograffeg claf. Drwy addasu ar gyfer ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd ac a allai effeithio ar berfformiad canfyddedig Bwrdd Iechyd, fel cefndir demograffig ymatebydd, statws economaidd, neu gyflwr meddygol, mae safoni'n rhoi darlun mwy cywir o unrhyw wahaniaethau o ran ansawdd ar draws darparwyr.

Cytunwyd y byddai data'n cael ei addasu yn ôl oedran, ethnigrwydd, cwintel IMD (amddifadedd), rhywedd a grŵp tiwmor wrth gymharu perfformiad Bwrdd Iechyd – fel yn arolwg 2016.

Nid yw data heb ei addasu wedi cael ei newid mewn unrhyw ffordd – mae'n adlewyrchiad cywir o'r atebion a ddarparwyd gan ymatebwyr ar ôl eu gwneud yn ddiennw.

Pan nad yw Byrddau Iechyd yn cael eu cymharu, bydd data heb ei addasu (data heb ei safoni) yn cael ei ddefnyddio.

3.5 Sgôr cyfartalog y Bwrdd Iechyd a sgôr Cymru Gyfan

Defnyddir data wedi'i addasu wrth gymharu Byrddau Iechyd yn yr adroddiad hwn. Ym mhob achos arall, nid yw'r data wedi'i addasu. Wrth gymharu Byrddau Iechyd, yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiadau unigol y Byrddau Iechyd, maent yn cael eu cymharu yn erbyn '**sgôr cyfartalog Bwrdd Iechyd**'. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd (cymedr) sgoriau unigol pob Bwrdd Iechyd. Mae cyfrifo'r cyfartaledd yn golygu nad yw Byrddau Iechyd mwy yn cael eu gorgynrychioli wrth bennu'r safon y maen nhw a Byrddau Iechyd eraill yn cael eu hasesu yn ei herbyn.

Pan fydd data heb ei addasu yn cael ei gyflwyno, bydd cyfanswm y sgôr yn cynrychioli **Sgôr Cymru Gyfan**. Dyma gyfanswm sgôr cadarnhaol yr holl ymatebwyr yn y sampl. Yn wahanol i sgôr cyfartalog y Bwrdd Iechyd, nid yw'r sgôr hon yn cyfrif am y gwahaniaeth mewn niferoedd o bob Bwrdd Iechyd, ac mae pob ymatebydd yn y sampl yn cael ei gynrychioli'n gyfartal.

Bydd sgôr Cymru Gyfan a sgoriau cyfartalog y Byrddau Iechyd a ddangosir yn y siartiau yn wahanol oherwydd y broses hon.

4. Cyfraddau ymateb

Maint sampl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys oedd **167** o gleifion canser.

O'r rhain, cafodd **7** eu tynnu gan nad oeddent yn gymwys. Roedd y cleifion anghymwys yn cynnwys y rhai a fu farw rhwng cwblhau'r sampl a derbyn unrhyw un o lythyrau'r arolwg (**7**), y rhai a oedd wedi newid cyfeiriad (**0**) neu'r rhai a oedd wedi rhoi gwybod i'r llinell gymorth nad oeddent yn gymwys am reswm arall (**0**).

Felly, cyfrifwyd bod maint y sampl yn **160** o gleifion. Cafodd cyfanswm o **103** o holiaduron eu dychwelyd wedi'u llenwi, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o **64.4%**

Derbyniwyd holiaduron drwy'r post gan **83** o ymatebwyr (**80.6%** o'r ymatebion); a dewisodd **18** (**17.5%**) lenwi eu holiaduron ar-lein. Galwodd **2** o ymatebwyr linell gymorth am ddim IQVIA i roi eu hymatebion dros y ffôn.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, oherwydd y sampl mawr iawn, y gyfradd ymateb uchel a'r lefelau ateb uchel ar gyfer pob cwestiwn, mae'r data'n gadarn iawn o ran ystadegau.

Mae rhagor o wybodaeth am y profion ystadegol a gynhaliwyd ar gael yn y Ddogfen Dechnegol yn <https://wcpes.co.uk/library>

Cyfraddau ymateb

Post



80.1%

Ar-lein



17.5%

Ffôn



1.9%

Cyfieithu



0%

Mae'r tablau isod yn dangos canran a nifer yr ymatebwyr yn ôl grŵp tiwmor, rhywedd, oedran, ethnigrwydd a rhywioldeb.

| Grŵp Tiwmor | Nifer yr ymatebwyr | Canran o gyfanswm yr ymatebwyr |
|---|--------------------|--------------------------------|
| Bron | 18 | 17.5% |
| Canser arall ⁸ | 18 | 17.5% |
| Hematoleg | 15 | 14.6% |
| Colon/ Y bibell gastroberfeddol is | 13 | 12.6% |
| Wrolegol (ac eithrio prostad) | 11 | 10.7% |
| Prostad | 7 | 6.8% |
| Gynaecoleg | 6 | 5.8% |
| Ysgyfaint | 6 | 5.8% |
| Y bibell gastroberfeddol uwch | 3 | 2.9% |
| Pen a gwddf | 2 | 1.9% |
| Croen | 2 | 1.9% |
| Yr ymennydd / y system nerfol ganolog (CNS) | 1 | 1.0% |
| Sarcoma | 1 | 1.0% |

| Rhywedd yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr | Canran o gyfanswm yr ymatebwyr |
|----------------------|--------------------|--------------------------------|
| Benywod | 57 | 55.3% |
| Gwrywod | 46 | 44.7% |

⁸ Ceir manylion y rhestr o godau sy'n ffurfio'r categori Canser arall yn Atodiad 2.

| Oedran yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr | Canran o gyfanswm yr ymatebwyr |
|---------------------|--------------------|--------------------------------|
| 16-24 | 2 | 1.9% |
| 25-34 | 0 | - |
| 35-44 | 2 | 1.9% |
| 45-54 | 7 | 6.8% |
| 55-64 | 24 | 23.3% |
| 65-74 | 31 | 30.1% |
| 75-84 | 31 | 30.1% |
| 85+ | 6 | 5.8% |

Mae'n bwysig cydnabod y nifer fach o ymatebion a gafwyd gan grwpiau Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribiaidd, Cymysg neu luosog, a grwpiau ethnig arall.

Mae ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru yn dangos bod 94% o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru yn disgrifio eu hunain fel Gwyn⁹, ac mae hyn yn adlewyrchu cyfran yr ymatebion i'r arolwg.

Er ei bod yn ymddangos bod ethnigrwydd y bobl sy'n ymateb i'r arolwg yn gynrychiolaeth fras o boblogaeth gyffredinol Cymru, mae'n golygu bod llai o ddata ar gael am brofiadau pobl Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribiaidd, cymysg neu luosog, a grwpiau ethnig eraill.

| Ethnigrwydd yr ymatebwyr | Nifer yr ymatebwyr | Canran o gyfanswm yr ymatebwyr |
|--|--------------------|--------------------------------|
| Cefndir Asiaidd | 0 | - |
| Cefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 0 | - |
| Cefndir ethnig cymysg / lluosog: | 0 | - |
| Grŵp ethnig arall | 0 | - |
| Cefndir gwyn | 99 | 96.1% |
| Ddim ar gael | 4 | 3.9% |

| Cyfeiriadedd rhywiol ymatebwyr ¹⁰ | Nifer yr ymatebwyr | Canran o gyfanswm yr ymatebwyr |
|--|--------------------|--------------------------------|
|--|--------------------|--------------------------------|

⁹ <https://llyw.cymru/ystadegau-cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-2017-i-2019>

¹⁰ Dywedodd 3.9 % o ymatebwyr ei bod yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn, ac nid oedd 8.7% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg wedi ateb y cwestiwn o gwbl.

| | | |
|--------------------|----|------|
| Heterorywiol | 87 | 84.5 |
| Deurywiol | 0 | - |
| Hoyw neu lesbiaidd | 3 | 2.9% |
| Rhywioldeb arall | 0 | - |

5. Cymharu â blynyddoedd blaenorol

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid a phrofi'r cwestiynau gyda phobl sy'n byw gyda chanser, mae'r holiadur wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol ers arolwg 2016.

- 16 o gwestiynau newydd
- 19 o gwestiynau wedi'u dileu
- 25 o gwestiynau wedi'u haddasu
- 2 bar o gwestiynau wedi'u cyfuno

Ystyrir bod modd cymharu'n fras 31 cwestiwn â fersiynau blaenorol o'r arolwg. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau sylweddol i'r holiadur, yr amser ers y fersiynau blaenorol a newidiadau i wasanaeth yn ystod pandemig COVID-19, dylid bod yn ofalus wrth wneud **unrhyw** gymariaethau â'r fersiynau blaenorol.

Os yw'r cwestiynau yr un fath â'r fersiynau blaenorol, neu os ydynt wedi cael eu haddasu ond bod yr ystyr yr un fath, dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn cysylltiedig yn 2013 a 2016 i ychwanegu cyd-destun i ganlyniadau 2021/22.

Ar gyfer pob cwestiwn sydd â data cymaradwy o fersiynau blaenorol o'r arolwg, ceir nodyn sy'n dangos a yw'n:

- a) Cymharol yn uniongyrchol
- b) Cymharol â newidiadau – gweler atodiad 1

Mae fersiwn 2016 o'r holiadur a'r cofnod llawn o'r newidiadau ar gael yn <https://wcpes.co.uk/library>

6. Yr adroddiad hwn a chyhoeddiadau dilynol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r arolwg ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae dadansoddiad ychwanegol ar gael yn yr adroddiad meintiol cenedlaethol, yn yr adroddiadau unigol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd a gymerodd ran a Chanolfan Ganser Felindre, ac yn yr adroddiad ansoddol cenedlaethol.

Mae llwyfan adrodd ar-lein yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn, sy'n dangos tablau data ac yn galluogi dadansoddiadau yn ôl newidynnau allweddol. Mae'r llwyfan adrodd ar-lein ar gael yn <https://wcpes.co.uk>

Mae'r canllawiau canlynol a deunyddiau'r arolwg hefyd wedi cael eu darparu ochr yn ochr â'r canlyniadau a gyhoeddwyd:

- Canllawiau samplu (rhoddwyd cyfarwyddiadau manwl i lechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch pwy ddylai gael eu cynnwys yn y sampl)
- Copi o holiadur 2021/22
- Dogfennau technegol (amlinelliad manwl o'r prosesau a gynhaliwyd ar gyfer dadansoddi ystadegol, cofnod o gymaroldeb a chofnod o'r sgôr)

Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael yn: <https://wcpes.co.uk/library>

7. Deall y canlyniadau

Roedd holiadur 2021/22 yn cynnwys 89 o gwestiynau unigol. Roedd 8 cwestiwn yn ymwneud â demograffeg cleifion ac roedd 81 yn gofyn am eu taith canser.

O'r 81 cwestiwn, roedd 23 yn gwestiynau casglu gwybodaeth neu'n gwestiynau cylchynu, er enghraifft C07 (*Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael prawf/profion diagnostig ar gyfer canser fel endosgopi, biopsi, mamogram neu sgan yn un o'r ysbytai a enwir yn y llythyr eglurhaol?*), ac roedd 58 cwestiwn yn ymwneud â phrofiad cleifion mewn ffordd y gellir eu gwerthuso.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys siartiau ar gyfer pob un o'r 58 cwestiwn arfarnu, ynghyd â 2 gwestiwn gwybodaeth y tybiwyd eu bod yn cynnwys data pwysig. Am y rheswm hwn, nid yw pob cwestiwn yn yr arolwg wedi cael ei nodi.

Data safonol a chrai heb ei addasu

Yn yr adran canlyniadau, mae cyfuniad o ddata crai wedi'i safoni a data heb ei addasu wedi cael ei ddefnyddio i roi darlun cynhwysfawr o ganlyniadau'r arolwg.

Data wedi'i safoni. Mae'n cael ei ddefnyddio yn [Siartiau Cymharu'r Byrddau Iechyd](#). Mae'r data hwn yn rhoi syniad o'r sgoriau wrth gymharu, drwy gael gwared ar unrhyw wahaniaethau a allai fod yn bresennol oherwydd amrywiadau lleol o ran proffil demograffig cleifion. Mae safoni'r data fel hyn yn sicrhau bod unrhyw gymariaethau a wneir yn ddibynadwy wrth bennu amrywiadau mewn sgoriau.

Mae safoni'r data fel hyn yn sicrhau bod unrhyw gymariaethau a wneir yn deg ac yn ddibynadwy wrth bennu amrywiadau mewn sgoriau.

Mae'r broses a ddefnyddir i safoni'r data yn seiliedig ar oedran, ethnigrwydd, cwintel IMD (amddifadedd), rhywedd a grŵp tiwmor.

Bydd y sgoriau canran a ddangosir yn Siartiau Cymharu Byrddau Iechyd yn wahanol i'r rheini yn y siartiau eraill oherwydd bod data safonol yn cael ei ddefnyddio.

Data crai heb ei addasu. Mae'n cael ei ddefnyddio yn y [Siartiau Cyfansoddol a Hydredol](#). Mae'r data hwn yn rhoi darlun heb ei addasu o sut yn union mae pobl sy'n byw gyda chanser wedi ymateb i'r arolwg. Mae'r data hwn yn bwysig i sicrhau gwelededd llawn o ganlyniadau'r arolwg fel set data ar ei ben ei hun.

Sgorio

Ar gyfer pob cwestiwn gwerthuso profiad y claf yn yr arolwg, mae'r ymatebion unigol (safonol) wedi cael eu trosi'n sgoriau ar raddfa o 0% i 100%. Er mwyn cyfrifo'r sgoriau hyn, mae pob ateb unigol ar gyfer cwestiwn sy'n cael ei sgorio wedi cael ei nodi fel naill ai cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Mae'r sgôr canran yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r canran cadarnhaol fel y rhifiadur, a chyfanswm nifer yr ymatebion cadarnhaol a negyddol fel yr enwadur. Mae sgoriau niwtral (ee "ddim yn gwybod / ddim yn cofio") wedi'u heithrio o'r sgôr (hy heb eu cynnwys yn y rhifiadur na'r enwadur). Mae sgôr o 100% yn cynrychioli'r ymateb gorau posibl a sgôr o 0% yw'r ymateb gwaethaf posibl. [Po uchaf yw'r sgôr, y gorau yw'r canlyniad.](#)

Mae cwestiwn 61 yn gofyn i ymatebwyr sgorio eu gofal cyffredinol ar raddfa o 0 i 10. Mae sgoriau wedi cael eu rhoi fel cyfartaledd ar y raddfa hon.

Mae manylion llawn y fethodoleg sgorio wedi'u cynnwys yn y ddogfen dechnegol sydd ar gael yn <https://wcpes.co.uk/library>

Sgôr cyfartalog y Bwrdd Iechyd a sgôr Cymru Gyfan

Pan fydd Byrddau Iechyd yn cael eu cymharu, yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiadau unigol y Byrddau Iechyd, maent yn cael eu cymharu yn erbyn 'sgôr cyfartalog Bwrdd Iechyd'. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd (cymedr) sgoriau unigol pob Bwrdd Iechyd. Mae cyfrifo'r cyfartaledd yn golygu nad yw Byrddau Iechyd mwy yn cael eu gorgynrychioli wrth bennu'r safon y maen nhw a Byrddau Iechyd eraill yn cael eu hasesu yn ei herbyn.

Pan fydd data heb ei addasu yn cael ei gyflwyno, bydd cyfanswm y sgôr yn cynrychioli 'Sgôr Cymru Gyfan'. Dyma gyfanswm sgôr cadarnhaol yr holl ymatebwyr yn y sampl. Yn wahanol i sgôr cyfartalog y Bwrdd Iechyd, nid yw'r sgôr hon yn cyfrif am y gwahaniaeth mewn niferoedd o bob Bwrdd Iechyd, ac mae pob ymatebydd yn y sampl yn cael ei gynrychioli'n gyfartal.


Oherwydd y broses hon o gyflwyno'r data, bydd sgoriau Cymru Gyfan a sgoriau cyfartalog Byrddau Iechyd yn ymddangos yn wahanol yn y siartiau adrodd.

Cwestiynau arfarnu am brofiad cleifion

Mae'r 58 o gwestiynau arfarnu am brofiadau cleifion yn cael eu dangos mewn 3 ffordd:

1. **Siart Cyfansoddol.** Mae'r Siart Cyfansoddol yn defnyddio data crai heb ei addasu. Mae'n dangos amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn. Nid yw'r siartiau'n cynnwys unrhyw ymatebion amhenodol fel ddim yn gwybod / ddim yn cofio.


Enghraifft o Siart Cyfansoddol - Cwestiwn 4: "Cyn i chi gael gwybod bod angen i chi fynd i'r ysbyty ynglŷn â chanser, sawl gwaith wnaethoch chi weld eich meddyg (meddyg teulu) am y broblem iechyd a achoswyd gan ganser?"



2. Siart Cymharu Byrddau Iechyd. Mae'r Siart Cymharu Byrddau Iechyd yn defnyddio canlyniadau sgôr pob cwestiwn yn erbyn y sgoriau cyfatebol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac mae'n defnyddio data safonol. **Dangosir y canlyniadau yn nhrefn eu perfformiad, o'r Bwrdd Iechyd sy'n sgorio uchaf i'r Bwrdd Iechyd sy'n sgorio isaf.**


Bydd y sgoriau canran a ddangosir yn Siartiau Cymharu Byrddau Iechyd yn wahanol i'r rheini yn y siartiau eraill oherwydd bod data safonol yn cael ei ddefnyddio.

Enghraifft o Siart Cyfansoddol Bwrdd Iechyd - Cwestiwn 4: "Cyn i chi gael gwybod bod angen i chi fynd i'r ysbyty ynglŷn â chanser, sawl gwaith wnaethoch chi weld eich meddyg (meddyg teulu) am y broblem iechyd a achoswyd gan ganser?"



3. Siart Hydredol. Mae'r Siart Hydredol yn defnyddio data crai heb ei addasu. Lle mae modd cymharu sgôr cwestiwn â fersiynau blaenorol o'r arolwg, mae siart hydredol yn dangos sgôr 2013 a/neu sgôr 2016. Os nad oes colofn ar gyfer 2013, mae hyn oherwydd nad oes data cymaradwy.

Enghraifft o Siart Hydredol - Cwestiwn 4: "Cyn i chi gael gwybod bod angen i chi fynd i'r ysbyty ynglŷn â chanser, sawl gwaith wnaethoch chi weld eich meddyg (meddyg teulu) am y broblem iechyd a achoswyd gan ganser?"




Cwestiynau gwybodaeth (nad ydynt yn gwestiynau arfarnu)


Er nad oedd sgôr wedi'i neilltuo, barnwyd bod 2 o'r cwestiynau gwybodaeth (C02 a C13) yn cynnwys data pwysig.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y cwestiynau gwybodaeth hyn nad ydynt yn gwestiynau arfarnu yn cael eu dangos gan ddefnyddio [Siartiau Cyfansoddol](#).

Enghraifft o Siart Cyfansoddol ar gyfer cwestiynau gwybodaeth- Cwestiwn 2: "Faint o amser aeth heibio o'r adeg roeddech chi'n meddwl y gallai rhywbeth fod o'i le a'r adeg wnaethoch chi weld meddyg teulu neu feddyg arall am y tro cyntaf?"



Enghraifft o Siart Hydredol ar gyfer cwestiynau gwybodaeth - Cwestiwn 2: "Faint o amser aeth heibio o'r adeg roeddech chi'n meddwl y gallai rhywbeth fod o'i le a'r adeg wnaethoch chi weld meddyg teulu neu feddyg arall am y tro cyntaf?"



Dulliau adrodd eraill

Cwestiynau heb eu hateb. Caiff y canrannau eu cyfrifo ar ôl eithrio'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi ateb y cwestiwn penodol hwnnw ('ar goll').

Talgrynnu. Mae'r holl ganrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Ar ôl eu hadio at ei gilydd, efallai na fydd y canrannau ar gyfer yr holl atebion i gwestiwn ar Siart Cyfansoddol yn creu cyfanswm o 100% oherwydd y talgrynnu hwn. Gall y talgrynnu hefyd effeithio ar ymddangosiad y newid dros amser a ddangosir yn y Siartiau Hydredol.

Ymatebion amherthnasol ac amhenodol. Mae rhai cwestiynau wedi cael eu hail-gyfrifo i eithrio atebion lle nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i amgylchiadau'r ymatebydd, neu os nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu rhoi ateb pendant. Er enghraifft, ar gwestiynau fel C12 - "*Pan ddywedwyd wrthy ch fod genny ch ganser, a gawsoch chi wybodaeth ysgrifenedig am y math o ganser a oedd genny ch?*" mae'r rheini a atebodd "*Doeddwn i ddim angen gwybodaeth ysgrifenedig*" neu "*Ddim yn gwybod / ddim yn cofio*" wedi'u heithrio o'r cyfrifiad maint sylfaenol/y canran. Os yw cyfanswm yr ymatebion a maint y sylfaen yn wahanol, mae'r ddau ffigur wedi'u cynnwys o dan y siartiau.

Rhagor o wybodaeth



Mae manylion llawn am y safoni a'r sgoriau ar gael yn y Ddogfen Dechnegol ar gyfer yr arolwg hwn, sy'n cael ei chyhoeddi ar wahân yn <https://wcpes.co.uk/library>

8. Canlyniadau'r arolwg

Mae'r adran hon yn cynnwys siartiau ar gyfer pob un o'r 58 cwestiwn arfarnu, ynghyd â 2 gwestiwn gwybodaeth y tybiwyd eu bod yn cynnwys data pwysig. Am y rheswm hwn, nid yw pob cwestiwn yn yr arolwg wedi cael ei nodi.


8.1 Cyn eich diagnosis

Cwestiwn 2: "Faint o amser aeth heibio o'r adeg roeddech chi'n meddwl y gallai rhywbeth fod o'i le a'r adeg wnaethoch chi weld meddyg teulu neu feddyg arall am y tro cyntaf?"




Cwestiwn 3: "Oeddech chi'n deall yr esboniad o'r hyn oedd o'i le arnoch?"

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 97 ymateb. Y rhai sy'n ateb "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (2) wedi'u heithrio o'r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 99 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




Cwestiwn 4: “Cyn i chi gael gwybod bod angen i chi fynd i’r ysbyty ynglŷn â chanser, sawl gwaith wnaethoch chi weld eich meddyg (meddyg teulu) am y broblem iechyd a achoswyd gan ganser?”

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae’r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 59 ymateb. Y rhai sy’n ateb "Es i’n syth i’r ysbyty ar ôl cael apwyntiad sgrinio am ganser" (18), "Es i’n syth i’r ysbyty drwy’r adran Damweiniau ac Achosion Brys" (5), "Arall" (4), "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (9) wedi’u heithrio o’r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 95 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




Sgoriau Dros Amser - Powys




Cwestiwn 6: “Sut ydych chi’n teimlo am yr amser y bu’n rhaid i chi ddisgwyl cyn eich apwyntiad cyntaf gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn ysbyty?”

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 98 ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




Cwestiwn 8: “Gawsoch chi’r holl wybodaeth roedd ei hangen arnoch am eich prawf ymlaen llaw?”

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae’r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 78 ymateb. Y rhai sy’n ateb "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (0) wedi’u heithrio o’r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 78 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




Cwestiwn 9: “A gawsoch chi esboniad o ganlyniadau'r prawf/profion mewn ffordd y gallech ei deall?”

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 76 ymateb. Y rhai sy'n ateb "Doeddwn i ddim angen esboniad" (1), "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (0) wedi'u heithrio o'r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 77 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




Sgoriau Dros Amser - Powys



8.2 Darganfod bod gennych chi ganser


Cwestiwn 10: “Sut ydych chi’n teimlo am y ffordd y cawsoch chi wybod bod gennych chi ganser?”

Ymatebion ar gyfer Powys




Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 96 ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd





Sgoriau Dros Amser - Powys



Cwestiwn 11: "Oeddech chi'n deall yr esboniad o'r hyn oedd o'i le arnoch?"









Ymatebion ar gyfer Powys

| | | | |
|---|----|-----|--|
| Oeddwn, roeddwn i'n ei ddeall yn llwyr | 81 | 81% |  |
| Oeddwn, roeddwn i'n deall rhywfaint ohono | 17 | 17% |  |
| Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn ei ddeall | 2 | 2% |  |


81%
yr ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod nhw wedi cael gwybod mewn ffordd sensitif bod cancer arnyn nhw

Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 100 ymateb. Y rhai sy'n ateb "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (0) wedi'u heithrio o'r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 100 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd

| | | | |
|--------------------------|------------|------------|--|
| Cyfartaledd Bwrdd Iechyd | 6,158 | 78% |  |
| Powys | 100 | 82% |  |
| Bae Abertawe | 759 | 79% |  |
| Aneurin Bevan | 1,215 | 79% |  |
| Caerdydd a'r Fro | 922 | 78% |  |
| Cwm Taf Morgannwg | 879 | 77% |  |
| Hywel Dda | 908 | 75% |  |
| Betsi Cadwaladr | 1,375 | 75% |  |

Sgoriau Dros Amser - Powys






+4%
Newid ers 2016-2021

Yn gymharol yn uniongyrchol

Cwestiwn 12: “Pan ddywedwyd wrthyfch fod gennych ganser, a gawsoch chi wybodaeth ysgrifenedig am y math o ganser a oedd gennych?”









Ymatebion ar gyfer Powys

| | | | |
|--|----|-----|--|
| Do, ac roedd yn hawdd ei deall | 63 | 70% |  |
| Do, ond roedd yn anodd ei deall | 4 | 4% |  |
| Naddo, ni chefais wybodaeth ysgrifenedig am y math o ganser oedd gen i | 23 | 26% |  |


70%
yr ymatebwyr a gafodd
wybodaeth ysgrifenedig
am eu canser a oedd yn
hawdd ei deall

Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 90 ymateb. Y rhai sy'n ateb "Doeddwn i ddim angen gwybodaeth ysgrifenedig" (11), "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (0) wedi'u heithrio o'r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 101 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd

| | | | |
|--------------------------|-----------|------------|--|
| Cyfartaledd Bwrdd Iechyd | 5,204 | 67% |  |
| Powys | 90 | 71% |  |
| Bae Abertawe | 635 | 69% |  |
| Caerdydd a'r Fro | 775 | 69% |  |
| Aneurin Bevan | 1,046 | 68% |  |
| Betsi Cadwaladr | 1,169 | 68% |  |
| Cwm Taf Morgannwg | 734 | 63% |  |
| Hywel Dda | 755 | 62% |  |


Sgoriau Dros Amser - Powys



+5%
Newid ers 2016-2021


Yn gymharol yn uniongyrchol

Cwestiwn 13: “Gawsoch chi wybodaeth am un o'r canlynol cyn cael triniaeth




Cwestiwn 14: “Pan gawsoch chi wybod gyntaf fod gennych ganser, a gawsoch wybod y gallech ddod ag aelod o’r teulu neu ffrind gyda chi?”

Ymatebion ar gyfer Powys





Mae’r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 97 ymateb. Y rhai sy’n ateb "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (3) wedi’u heithrio o’r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 100 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd




8.3 Penderfynu ar y driniaeth a / neu'r gofal gorau i chi

Cwestiwn 15: "Cyn i'ch triniaeth canser ddechrau, a drafodwyd eich dewisiadau o ran triniaeth gyda chi?"




Cwestiwn 16: “A oeddech chi’n cael eich cynnwys gymaint ag oeddech chi’n dymuno cael eich cynnwys mewn penderfyniadau am eich gofal a’ch triniaeth?”

Ymatebion ar gyfer Powys



Mae’r canlyniadau uchod yn seiliedig ar 98 ymateb. Y rhai sy’n ateb "Ddim yn gwybod / ddim yn cofio" (3) wedi’u heithrio o’r cyfrifiad maint sylfaen / y canran. 101 cyfanswm o ymateb.

Cymharu Byrddau Iechyd



